# **CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI/GYRRWR CERBYD PREIFAT**

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 / Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847 (fel y'i diwygiwyd)**

***Darllenwch y Polisi Ymgeisio am Drwydded Tacsi cyn llenwi'r ffurflen hon i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol i ddod yn Yrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.***

Cwblhewch y ffurflen hon mewn prif lythrennau a rhowch diciau lle bo'n briodol. **Sylwch NA fydd y ffurflen hon yn cael ei phrosesu os na chwblheir POB un o'r adrannau isod.**

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Polisi ynghylch Perthnasedd Euogfarnau a gallwch ddod o hyd iddo ar wefan y Cyngor neu drwy e-bost gan yr Adran Trwyddedu. **Dylech ddarllen y ddogfen hon cyn cwblhau eich cais.**

**Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This form is also available in English**

**CAIS AM:**

**Gyrrwr Cerbyd Hacni ☐ Gyrrwr Hurio Preifat ☐**

## 1. Manylion yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Enw Llawn yr Ymgeisydd: | |
| Cyfeiriad yr Ymgeisydd: | |
| Cod Post: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Geni: | DD/MM/BBBB | Rhif Yswiriant Gwladol: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Ffôn Sefydlog: | | Rhif Ffôn Symudol: | |
| E-bost: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwlad eich Geni: | | Cenedligrwydd Cyfredol: | |

| | |
|---|---|
| A ydych chi wedi treulio 6 mis di-dor neu fwy y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar unrhyw adeg ers eich geni? | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
| Os ydw, rhowch fanylion: | |

## 2. Eich Hawl i Weithio yn y DU

Er mwyn prosesu'ch trwydded, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon fod gennych hawl gyfreithiol i weithio'n gyflogedig yn y DU.

| | |
|---|---|
| A oes gennych ganiatâd cyfreithiol i breswylio yn y DU? | Oes ☐ Nagoes ☐ |
| A oes gennych ganiatâd cyfreithiol i weithio yn y DU? | Oes ☐ Nag oes ☐ |

Os ydych wedi ateb oes i un o'r cwestiynau uchod, darparwch gopi o brif dudalen eich pasbort (yn dangos manylion eich cenedligrwydd.) Os nad oes gennych basbort, darparwch ddogfennaeth swyddogol, amgen yn cadarnhau eich Dinasyddiaeth Brydeinig neu o'r UE.

Os ydych wedi ateb nagoes i'r DDAU gwestiwn uchod, yna bydd angen Cod Hawl i Weithio ar y Cyngor er mwyn asesu'ch cymhwysedd i weithio yn y DU. Gellir cael cod hawl i weithio drwy glicio ar y ddolen isod:

https://www.gov.uk/view-right-to-work

Nodwch y cod hawl i weithio, isod. Drwy ddarparu'r cod, rydych yn rhoi'r hawl i'r Cyngor wneud gwiriad ar eich statws hawl i weithio.

| | |
|---|---|
| Cod Hawl i Weithio | |

## 3. Manylion Gyrru ac ati

| | |
|---|---|
| Rhif Trwydded Yrru'r DVLA | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cawsoch drwydded yrru lawn y DVLA: | DD/MM/BBBB |

| | |
|---|---|
| Ydych chi wedi derbyn trwydded gyrru cerbyd i'w hurio, cyn hyn, mewn awdurdod arall? | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
| Os ydw, nodwch enw'r awdurdod lleol: | |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| A oes gennych drwydded gyfredol i yrru cerbyd i'w hurio mewn awdurdod arall? | Oes ☐ Nag oes ☐ |
| Os oes, nodwch enw'r awdurdod lleol: | |

| | |
|---|---|
| Nodwch fanylion y Gweithredwr Hurio Preifat yr ydych yn bwriadu gweithio iddo (os oes un)? | Enw'r gweithredwr |

## 4. Iechyd

Mae angen i ymgeiswyr ddiwallu safonau iechyd Grŵp 2 ac mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif feddygol foddhaol gyda'ch cais.

**Mae'n rhaid i chi hysbysu'r awdurdod trwyddedu'n syth o unrhyw newidiadau meddygol allai effeithio ar eich gallu i yrru a gwneud swyddogaethau Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Hurio Preifat.**

| | |
|---|---|
| A oes gennych gyflwr meddygol allai effeithio ar eich gallu i weithredu fel gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat | Oes ☐ Nag oes ☐ |
| Os oes, nodwch fanylion: | |

## 5. Datgan Euogfarnau Blaenorol ac ati

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd y Cyngor yn cynnal gwiriad o'ch Tystysgrif Datgeliad Manylach trwy Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Drwy ddarparu'r manylion isod, rydych yn rhoi caniatâd i Wasanaeth Trwyddedu CBS Merthyr Tudful gynnal unrhyw wiriadau sydd eu hangen ar Wasanaeth Diweddaru'r DBS er mwyn sicrhau bod eich Tystysgrif yn dderbyniol.

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi ar hyn o bryd yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru Ar-lein y DBS? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n caniatáu i'r Cygnor wirio'ch Tystysgrif trwy'r Gwasanaeth Diweddaru fel rhan o'ch cais? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Os ydych, rhowch rif eich Tystysgrif gyfredol yma: | | |

Os nad ydych yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS, neu os nad ydych yn caniatáu i'r Cyngor gynnal gwiriad o'ch Tystysgrif, yna mae'n rhaid ichi gwblhau cais am Dystysgrif Datgeliad Manylach newydd. Bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu darparu i chi unwaith y bydd y Cyngor wedi derbyn eich cais.

**Er mwyn asesu eich addasrwydd i fod yn yrrwr trwyddedig, mae angen i chi ddatgelu unrhyw gollfarnau, rhybuddion, ceryddon neu rybuddion terfynol nad ydynt wedi'u "gwarchod" fel y diffinnir gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd).**

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi erioed wedi cael eich cyhuddo o drosedd traffig ffordd neu a oes unrhyw euogfarnau ar eich trwydded DVLA? | Oes ☐ | Nag oes ☐ |
| Os ydych wedi ateb oes, nodwch fanylion gan gynnwys dyddiad yr euogfarn a'r gosb/ddirwy: | | |

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi erioed wedi'ch cyhuddo, neu wedi derbyn rhybuddiad neu hysbysiad cosb benodedig am unrhyw drosedd, ac eithrio am drosedd foduro? | Ydw ☐ | Nac ydw ☐ |
| Os ydych wedi ateb ydw, rhowch fanylion isod yn cynnwys dyddiad y cyhuddiad a'r gosb/ddirwy: | | |

| A ydych yn aros am unrhyw erlyniadau gyrru a/neu droseddol? | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
|---|---|
| Os ydw, nodwch fanylion isod gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad: | |

| A ydych erioed wedi cael Trwydded Cerbyd Hacni / Hurio Preifat wedi'i wrthod / tynnu yn ôl / gohirio gan yr awdurdod hwn neu gan unrhyw awdurdod lleol arall? | Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
|---|---|
| Os ydw, nodwch ddyddiadau a manylion: | |

**Nodwch y byddwn yn gwirio'n cofnodion. Gall methiant i ddatgan euogfarnau / rhybuddiadau / hysbysiadau cosb benodedig arwain at wrthod eich cais.**

## Gwiriadau Treth

Cyflwynodd Deddf Cyllid 2021 wiriadau treth fel rhan o'r cais i adnewyddu trwyddedau gweithredwyr tacsi neu hurio preifat.

**Mae'r adran hon yn berthnasol yn unig os ydych yn gwneud cais ar neu ar ôl 4 Ebrill 2022 ac os ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:**

- gwneud cais am yr un math o drwydded â chynt sydd wedi dod i ben llai na blwyddyn yn ôl; neu
- gwneud cais am yr un math o drwydded sydd eisoes gennych mewn awdurdod arall.

**Gweler pwynt datganiad 6, isod.**

| **Cod Gwirio Treth** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## 6. Datganiad

**Darllenwch yr adran hon yn ofalus ac arwyddwch os ydych yn deall ac yn derbyn pob datganiad.**

**(1)** Rwy'n datgan fy mod wedi gwirio'r wybodaeth ar y ffurflen gais ar gyfer Trwydded Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a bod y wybodaeth honno'n gywir, hyd eithaf fy ngallu. Rwy'n gwneud y datganiad hwn gan wybod nad ydwyf wedi gwneud datganiad ffug nac esgeulus nac wedi hepgor unrhyw beth allai gamarwain. Gallai hynny arwain at erlyniad a gallai fy nhrwydded gael ei gohirio neu ei thynnu yn ôl.

**(2)** Rwy'n deall y bydd unrhyw drwydded yn destun i ddarpariaethau:

a. Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847
b. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
c. Is-gyfreithiau Cyngor a thelerau'r drwydded ac unrhyw gyfreithiau, is-gyfreithiau neu reoliadau a ddaw i rym.

**(3)** Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Polisi Preifatrwydd
Ar gyfer ymgeiswyr sydd yn gwneud cais am Wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rwyf wedi darllen y Polisi Preifatrwydd Safonol / Gwiriad Ehangach ar gyfer ymgeiswyr https://www.gov.uk/government/publications/dbs-privacy-policies ac rwy'n deall sut y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn prosesu data personol a'r opsiynau sydd ar gael i mi wrth gyflwyno fy nghais.

**(4) Cofrestr Genedlaethol o Wrthodiadau a Dirymiadau (NR3)**
Pan fyddwn yn derbyn cais am drwydded, byddwn yn gwirio manylion yr ymgeisydd ar y gofrestr er mwyn cadarnhau nad oes unrhyw gofnod eu bod wedi'u dirymu neu'u gwrthod rywle arall.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ychwanegu manylion sylfaenol am yrwyr pan fyddwn yn gwrthod cais neu'n dirymu eu trwydded. Mae'r manylion a geir ar y gofrestr wedi'u cyfyngu i wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod unigolyn i ryw raddau o gywirdeb. Nid yw'r gofrestr yn cynnwys unrhyw resymau am wrthod cais neu ddiddymu trwydded. Am ragor o wybodaeth, gweler:

**(5) Deddf Diogelu Data 2018**

Mewn cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu ac er mwyn gwneud hynny, gall y cyngor ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar eich cais am drwydded yn ogystal ag unrhyw ddata a fydd yn cael ei gadw gan yr awdurdod er mwyn atal a datgelu twyll. Pan fydd angen gwneud hynny, gall y wybodaeth gael ei rhannu â chyrff sydd yn gweinyddu arian cyhoeddus ac â sefydliadau eraill a hynny ar gyfer y bwriadau hyn yn unig. O dan Erthygl 6(1)(e) o GDPR, mae gennym hawl i ddefnyddio data ar gyfer ein tasgau.

Bydd unrhyw ddata a fydd yn cael ei ddarparu gennych chi, ar y ffurflen hon yn cael ei brosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data a thrwy ddarparu'r data, rydych yn rhoi caniatâd i'r Cyngor ei brosesu ar gyfer yr hyn y'i bwriadwyd. Bydd pob gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol a gellir ei defnyddio gan y cyngor yn unig neu ei datgelu i eraill ar gyfer bwriadau y caniateir yn gyfreithlon.

**(6) Gwiriadau Treth (lle'n berthnasol)**

Mae Deddf Cyllid 2021 wedi cyflwyno gwiriadau treth fel rhan o'r ceisiadau i adnewyddu trwyddedau ar gyfer gyrwyr tacsis a hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y canllawiau gan CThEM wrth i mi gofrestru fy ngwiriad treth.
Drwy ddarparu fy nghod CThEM, rwy'n rhoi fy nghaniatâd i'r Cyngor gadarnhau â CThEM fy mod wedi gwneud gwiriad treth.
Deallaf na fyddaf yn derbyn trwydded, os na fyddaf yn darparu cod treth.

**Cynghorir ymgeiswyr ei fod yn drosedd i wneud datganiad ffug neu esgeulus neu i hepgor unrhyw wybodaeth.**

| | | |
|---|---|---|
| **Rwy'n deall ac yn derbyn pob un o'r 7 datganiad uchod.**<br>Arwyddwyd: | Dyddiad: | DD/MM/BBBB |
| Enw llawn mewn llythrennau bras: | | |

**Rhestr Wirio Ceisiadau**

Bydd eich cais yn cael ei brosesu yn unol â'r Polisi Trwyddedu Tacsis a bydd angen ambell wybodaeth benodol neu gamau gweithredu er mwyn pennu eich cymhwysedd i yrru cerbyd trwyddedig.

Darparwyd rhestr wirio ar eich cyfer isod. Am ragor o wybodaeth ynghylch y meini prawf isod, adolygwch y Polisi Gwneud Cais am Drwydded Tacsi.

| | |
|---|---|
| Cwblhau Ffurflen Gais | ☐ |
| Ffi | ☐ |
| Ffotograff pasbort | ☐ |
| Trwydded Yrru'r DVLA | ☐ |
| Tystysgrif Feddygol Grŵp 2 | ☐ |
| Tystiolaeth o Hawl i weithio yn y DU | ☐ |
| Tystysgrif Prawf Gwybodaeth | ☐ |
| Tystysgrif Asesiad Gyrru | ☐ |
| Adroddiad troseddol Tramor (os yn berthnasol) | ☐ |
| Dogfennau Adnabod | ☐ |

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn cyflawni'r meini prawf angenrheidiol er mwyn cael trwydded ac y gallai unrhyw beth sydd wedi'u hepgor, effeithio ar fy nghais. Deallaf mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau fod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chyflwyno a'i bod yn gyflawn a chywir.

| | | |
|---|---|---|
| Arwyddwyd: | Dyddiad: | DD/MM/BBBB |
| Enw Llawn mewn llythrennau bras: | | |